

Gollyngiadau Gwaed a Hylifau'r Corff

e.e. gwaed, wrin, ymgarthion, chŵyd, poer, secretiad trwynol, llaeth y fron

Mae'n bwysig ymdrin ar unwaith â gollyngiadau o waed, ymgarthion, chŵyd neu hylifau eraill y corff gan eu bod yn peri perygl o drosglwyddiad haint ac afiechyd, e.e. firysau a gludir yn y gwaed (fel Hepatitis B) a dolur rhydd a/neu chwydu (fel y Norovirus).

Dylai lleoliadau ofalu fod trefniadau a phrotocolau wedi'u sefydlu i ddelio â'r gollyngiadau hyn ar unwaith ac yn briodol.

Pwyntiau Allweddol

- Gofalu fod polisiau a gweithdrefnau clir wedi'u sefydlu i reoli gollyngiadau gwaed a hylifau'r corff yn effeithiol.
- Bod staff wedi'u hyfforddi i reoli gollyngiadau gwaed a hylifau'r corff yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Bod Cyfarpar Diogelu Personol yn cael eu gwisgo.
- Bod citiau gollyngiadau yn cynnwys menig, ffedogau a chlytiau tafladwy; cynhyrchion dal gollyngiadau a chyfarwyddiadau; a sgŵp ar gael.
- Bod person a enwir yn gyfrifol am archwilio ac ailgyflenwi citiau gollyngiadau'n rheolaidd, pan fyddan nhw wedi'u defnyddio neu wedi mynd heibio dyddiadau dod i ben.

Dylid

- ✓ Gofalu fod cyflenwadau digonol o gitiau gollyngiadau ar gael bob amser.
- ✓ Gofalu fod diheintydd addas yn cael ei ddefnyddio, fel cyfryngau rhyddhau clorin o'r crynodiad priodol.
- ✓ Dilyn cyfarwyddiadau gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio diheintydd.
- ✓ Storio pob cemegyn yn ddiogel yn unol â *COSHH (Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, 2002)*.
- ✓ Delio â gollyngiadau ar unwaith i leihau risgiau o lygriad a throsglwyddiad clefydau.
- ✓ Gofalu fod yr ardal wedi'i hawyru'n dda os defnyddir cemegau.
- ✓ Gofalu fod dillad diogelwch yn cael eu gwisgo.
- ✓ Gwaredu cadachau glanhau sydd wedi'u baeddu a dillad diogelwch i fagiau gwastraff.
- ✓ Golchi eich dwylo.

Ni ddylid

- × Defnyddio cadachau na mopiau amlbro i lanhau gollyngiadau gwaed neu hylifau corff.

**ENGHRAIFFT CIT
GOLLYNGIADAU (neu
gallwch prynu un)**

- Ffedogau a menig tafladwy
- Sgwp
- Tywelion papur
- Clytiau defnydd sengl
- Glanedydd / diheintydd
- Gronynnau gollyngiadau / cyfarwyddiadau
- Mop defnydd sengl (ardaloedd mawr yn unig)
- Bag gwastraff

Dull gweithredu i ddelio â gwaed a gollyngiadau hylifau'r corff

e.e. gwaed, wrin, ymgarthion, chŵyd, poer, secretiad trwynol, llaeth y fron

Byddwch yn ofalus i beidio â chael yr hylif yr ydych chi'n ei lanhau yn eich llygaid, eich trwyn, eich ceg neu unrhyw briw agored sydd gennych.

Rhowch Gyfarpar Diogelu Personol priodol amdanoch (e.e. ffedog a menyg tafladwy). Ynysu'r ardal.

